# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 1 Mai 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(128)

### 1. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth - sesiynau cwestiynau wedi'u haildrefnu

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 3, 5 i 12 a 14 i 15. Trosglwyddwyd cwestiwn 4 i'w ateb yn ysgrifenedig. Trosglwyddwyd cwestiwn 13 i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Dechreuodd yr eitem am 14.08

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

### 3. Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 26 a 26A mewn perthynas â'r Cyfnod Ailystyried

Dechreuodd yr eitem am 14.54

**NDM5226 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 26 a 26A: Y Cyfnod Ailystyried' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ebrill 2013; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheolau Sefydlog 26 a 26A, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**4. Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 21 a 27 mewn perthynas â Chyflwyno Adroddiadau ar Offerynnau Statudol**

Dechreuodd yr eitem am 14.54

**NDM5227 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 21 a 27: Cyflwyno Adroddiadau ar Offerynnau Statudol' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ebrill 2013; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheolau Sefydlog 21 a 27, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**5. Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 29 a 30 ar Gydsyniad mewn perthynas â Biliau Senedd y DU**

Dechreuodd yr eitem am 14.55

**NDM5225 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 29 a 30: Cydsyniad mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ebrill 2013; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheolau Sefydlog 29 a 30, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 14.56

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5216 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod y rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG yn gwneud hynny'n gyfrifol.

2. Yn gresynu at effaith andwyol ymddygiad anghyfrifol ymhlith cleifion gan leiafrif o bobl sy'n defnyddio GIG Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu i annog cleifion i beidio ag ymddwyn yn anghyfrifol a hyrwyddo mwy o gyfrifoldeb ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r GIG.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 12 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**7. Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 15.51

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5224 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r cylch gwaith i'r Comisiwn ar Lywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus o fynd i'r afael â'r diffyg atebolrwydd democrataidd presennol yn y GIG drwy ystyried:

a) etholiadau uniongyrchol i Fyrddau Iechyd Lleol;

b) goruchwylio democrataidd o drefniadau cydweithio a chyllideb gyfun rhwng Byrddau Iechyd ac awdurdodau lleol;

c) ethol defnyddwyr gwasanaethau i Gynghorau Iechyd Cymuned; a

d) atebolrwydd ariannol Byrddau Iechyd Lleol yn uniongyrchol i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 41 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu ‘roi’r cylch gwaith i’r Comisiwn ar Lywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus o fynd i'r afael â'r diffyg atebolrwydd democrataidd presennol yn y GIG drwy ystyried:’ a rhoi yn ei le ‘gynnwys yng nghylch gorchwyl y Comisiwn ar Lywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus y diffyg atebolrwydd democrataidd presennol yn y GIG ac a fyddai modd mynd i'r afael â hyn drwy:’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 34 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu is-bwynt d) a rhoi yn ei le:

‘rôl y Cynulliad Cenedlaethol ac awdurdodau lleol yn nhrefniadau atebolrwydd ariannol GIG Cymru.’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 34 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu is-bwynt d)

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 8 | 16 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt d) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

‘mabwysiadu manyleb safonol o’r sgiliau, y profiad a’r doniau a fyddai’n ofynnol i aelodau sy’n cael eu hethol i bwyllgorau gwaith Cynghorau Iechyd Cymuned;’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 8 | 26 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘gofyniad ar fyrddau iechyd lleol i gyhoeddi manylion pob eitem o wariant sy’n fwy na £500 (ar wahân i gostau staff unigol) ar-lein ar gyfer craffu cyhoeddus’.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 34 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘rôl mudiadau’r trydydd sector i wella atebolrwydd y GIG i bobl Cymru.’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 4 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM5224 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r cylch gwaith i'r Comisiwn ar Lywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus o fynd i'r afael â'r diffyg atebolrwydd democrataidd presennol yn y GIG drwy ystyried:

a) etholiadau uniongyrchol i Fyrddau Iechyd Lleol;

b) goruchwylio democrataidd o drefniadau cydweithio a chyllideb gyfun rhwng Byrddau Iechyd ac awdurdodau lleol;

c) ethol defnyddwyr gwasanaethau i Gynghorau Iechyd Cymuned; a

d) rôl mudiadau’r trydydd sector i wella atebolrwydd y GIG i bobl Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**8. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.45

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5228 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod yn rhaid i gymorth i safonau ysgolion yng Nghymru yn y dyfodol ganolbwyntio ar alluogi pob disgybl i gyrraedd ei lawn botensial a rhoi'r pwer i ysgolion ysgogi cynnydd mewn safonau.

2. Yn nodi bod dadansoddiad gan y Sefydliad Materion Cymreig yn pwysleisio y gellir codi safonau mewn ysgolion ar sail disgyblion unigol pan fydd ysgolion yn canolbwyntio ar drywydd eu disgyblion gymaint ag ar eu safon gyrhaeddiad absoliwt, gyda'r defnydd priodol o werthuso a monitro mewnol.

3. Yn croesawu'r ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Estyn yn cyflwyno adroddiad ar ba mor effeithiol y mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndir difreintiedig a disgyblion â chefndir mwy cefnog.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) datblygu rhaglen monitro disgyblion unigol i fesur cynnydd disgyblion, gan alluogi ysgolion i dargedu ymdrechion at y disgyblion hynny nad ydynt yn cyrraedd eu potensial;

b) cynyddu'n sylweddol y cyllid ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion a sicrhau bod ysgolion yn rhoi cyhoeddusrwydd i sut y mae'r cyllid hwn wedi'i wario, i annog atebolrwydd, targedu effeithiol a rhannu arfer gorau; ac

c) diwygio'r system ar gyfer bandio ysgolion i sicrhau ei bod yn mesur perfformiad ysgol o ran perfformiad disgyblion unigol, gan gynnwys ailstrwythuro'r system i ddangos mor dda y mae ysgolion yn cyflawni wrth gynorthwyo disgyblion i gyrraedd eu potensial eu hunain.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 0 | 44 | 48 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, ar ôl ‘disgybl' cynnwys, ‘ni waeth beth fo'i gefndir na'i allu,’.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1 ychwanegu ‘a chyrff addysgol’ ar ôl ‘rhoi pwer i ysgolion'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 3.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 38 | 50 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu pwynt 4.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 24 | 50 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gan fod gwelliant 4 wedi’i dderbyn, cafodd gwelliannau 5, 6, 7, 8, 9 a 10 eu dad-ddethol.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM5228 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod yn rhaid i gymorth i safonau ysgolion yng Nghymru yn y dyfodol ganolbwyntio ar alluogi pob disgybl ni waeth beth fo'i gefndir na'i allu, i gyrraedd ei lawn botensial a rhoi'r pwer i ysgolion a chyrff addysgol ysgogi cynnydd mewn safonau.

2. Yn nodi bod dadansoddiad gan y Sefydliad Materion Cymreig yn pwysleisio y gellir codi safonau mewn ysgolion ar sail disgyblion unigol pan fydd ysgolion yn canolbwyntio ar drywydd eu disgyblion gymaint ag ar eu safon gyrhaeddiad absoliwt, gyda'r defnydd priodol o werthuso a monitro mewnol.

3. Yn croesawu'r ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Estyn yn cyflwyno adroddiad ar ba mor effeithiol y mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndir difreintiedig a disgyblion â chefndir mwy cefnog.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 4 | 0 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 17.45

**9. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17.52

**NDM5215 Paul Davies (Preseli Sir Benfro):**

Adeiladu Rhwydwaith Ffyrdd Gwledig ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain: Yr achos dros wneud gwaith deuoli ar yr A40 yn Sir Benfro

Daeth y cyfarfod i ben am 18:12

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 7 Mai 2013**